**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
—
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cyn-gadeirydd
Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r
Senedd

16 Hydref 2023

Annwyl Huw

Y Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Fel y gwyddoch, cyflwynodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) i'r Senedd ar 18 Medi 2023. Rôl y Pwyllgor Biliau Diwygio yw cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd, fel cyn-gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, i rannu eich barn ar y Bil gyda ni.

Roedd y cylch gwaith a roddwyd i'r Pwyllgor Diben Arbennig gan y Senedd yn cynnwys ystyried casgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd yn ei adroddiad ym mis Medi 2020, a gwneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd.

Yn 2017, argymhellodd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad y dylai'r Senedd gael o leiaf 80, ac yn ddelfrydol yn agosach at 90, o Aelodau. Mewn perthynas â'r system etholiadol, argymhellodd y Panel Arbenigol pe bai ei ymyriadau arfaethedig i gefnogi ac annog amrywiaeth cynrychiolaeth (gan gynnwys cwotâu rhywedd deddfwriaethol ar lefel ymgeisydd a'i gwneud yn ofynnol cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ymgeiswyr) yn cael eu gweithredu, y dylai'r Aelodau gael eu hethol drwy bleidlais sengl drosglwyddadwy. Dywedodd pe na bai ymyriadau amrywiaeth o'r fath yn cael eu gweithredu, y dylai'r Aelodau gael eu hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol rhestr

hyblyg. O ran ffiniau etholiadol, argymhellodd y dylid defnyddio naill ai'r ffiniau etholaethau presennol neu ffiniau awdurdodau lleol fel sail ar gyfer creu etholaethau aml-aelod newydd.[1]

Yn 2020, daeth Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth a gafodd a'i ystyriaeth o argymhellion y Panel Arbenigol, y dylai'r Senedd gael rhwng 80 a 90 o Aelodau, wedi'u hethol drwy bleidlais sengl drosglwyddadwy. Nododd ei adroddiad nad oedd yn gallu dod i gasgliadau ar ffiniau etholiadol oherwydd bod y pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar ei allu i gasglu tystiolaeth.[2]

Yn 2022, argymhellodd y Pwyllgor Dibenion Arbennig, ymhlith materion eraill, y dylai'r Senedd gael 96 o Aelodau, wedi'u hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol rhestr gaeedig i gynrychioli etholaethau ar sail y 32 o etholaethau newydd yn San Steffan.[3]

Mae'n amlwg o'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil[4], ac o ddatganiadau a wnaed gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad[5] a'r Prif Weinidog[6] bod adroddiad y Pwyllgor Diben Arbennig wedi chwarae rhan arwyddocaol yng ngwaith Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynigion polisi sy'n sail i Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil ei hun.

Felly, er bod y cyfrifoldeb dros Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r darpariaethau ynddo yn perthyn i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad fel yr Aelod sy'n gyfrifol, byddem yn croesawu eich barn fel cyn-gadeirydd y Pwyllgor Diben Arbennig ar nifer o faterion, gan gynnwys:

1. Dehongliad y Pwyllgor o'i gylch gwaith (ystyried casgliadau'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd a gwneud argymhellion ar gyfer cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd), a sut y gwnaeth y cylch gwaith hwnnw lywio argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig.

2. Effaith y datganiad sefyllfa ar y cyd a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ac arweinydd Plaid Cymru ar y pryd ar 10 Mai 2022, a'r llythyr at y Pwyllgor Diben Arbennig ar yr un dyddiad, ar adroddiad y Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw effaith ar drywydd y Pwyllgor, ei gasgliadau neu ei argymhellion.

---

[1] Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Senedd sy'n gweithio i Gymru: adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad, Tachwedd 2017, argymhellion 1, 4 a 6

[2] Pwyllgor Diwygio Etholiadol y Senedd, Diwygio'r Senedd: y camau nesaf, Medi 2020, argymhellion 1 a 4 a pharagraff 16

[3] Y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, Diwygio ein Senedd: Llais cryfach i bobl Cymru, Mai 2022, argymhellion 2, 7 ac 18

[4] Er enghraifft, Llywodraeth Cymru, Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Medi 2023, paragraff 17

[5] Er enghraifft, Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn [paragraff 206], 19 Medi 2023, Cofnod y Trafodion, Pwyllgor Biliau Diwygio [paragraffau 12, 25 a 27]

[6] Cofnod y Trafodion, y Cyfarfod Llawn [paragraff 49], 26 Medi 2023

3. Y dystiolaeth y seiliodd y Pwyllgor Diben Arbennig ei argymhellion arni, yn enwedig argymhellion mewn perthynas â: nifer penodol yr Aelodau (argymhelliad 2); y defnydd o gynrychiolaeth gyfrannol rhestr gaeedig i ethol Aelodau o'r Senedd (argymhelliad 7); y defnydd o fformiwla etholiadol D'Hondt i ddyrannu seddi (argymhelliad 8); a'r cynnig y dylid creu etholaethau'r Senedd i ddechrau drwy baru'r 32 o etholaethau San Steffan a sefydlwyd gan adolygiad ffiniau Senedd y DU yn 2023 (argymhelliad 18).

4. Y ffordd y mae argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig wedi'u dehongli a'u hadlewyrchu ym Mil Llywodraeth Cymru a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.

Byddem yn croesawu ymateb ysgrifenedig ar y materion hyn erbyn **dydd Gwener 3 Tachwedd 2023**.

Yn gywir



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.